



YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

✉ admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

 Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



ysgolhafanymor.cymru



@hafanymortenby

05.10.18

Dear parents

Sêr yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Freddie, Sonny, Iwan, Seren, Dewi a Ryan am fod yn sêr yr wythnos - 05.10.18!

Peldroed yr Urdd

Llongyfarchiadau gwresog i dimau bechgyn a merched yr ysgol yn dilyn eu llwyddiannau yng nghystadleuaeth pêl droed yr Urdd, dydd Mercher diwethaf. Roedd tîm y bechgyn sef; Cooper Madoc, Alex, Osian, Ethan, William, Sam H, Eli a Louis wedi mynd trwyddo i'r rownd cyn derfynol ag aeth tîm y merched sef; Freya, Beatrix, Isla, Seren, Dulcie, Bethany, Mollie a Lottie trwyddo i chwarae yn y rownd derfynol. Ni enillodd y timau ond rydym yn falch iawn o'u hymdrechion ac yn dathlu eu llwyddiant. Gan fod tîm y merched wedi cystadlu yn y rownd derfynol mi fyddant yn cystadlu yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd ym mis Mawrth - llongyfarchiadau merched!

Llythyron caniatad

Ar ddydd Iau 27.9.18, cafodd pob plentyn ffurflenni caniatâd. **Rydym dal yn aros i rai ffurflenni cael eu dychwelyd.** Os nad ydym yn derbyn y ffurflenni nol wedi'u cwblhau gall hwn achosi problemau yn y dyfodol o ran cyhoeddi llun eich plentyn neu ganiatâd ar gyfer teithiau a chystadlaethau. Diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi danfon eich ffurflenni nol yn barod.

Polisi Gwarchod Data

Mae Polisi GDPR ynghyd â rhybudd preifatrwydd cydymffurfio GDPR ar gyfer gweithlu'r ysgol, Mai 2018, ar gael i chi ddarllen ar wefan yr ysgol. <http://www.ysgolhafanymor.cymru/cartref/gohebiaeth/gdpr-data-protection/>

Salwch

Yn anffodus mae Mrs Hughes, dosbarth yr Harbwr i ffwrdd o'r gwaith yn sâl. Mae athrawes gyflenwi, Mrs Davies yn cymryd y dosbarth a gobeithiaf yn fawr y bydd Mrs Hughes nol mor fuan â phosib. Yn y cyfamser, os oes unrhyw gwestiwn neu bryder gennych a wnewch chi siarad â mi neu Mr Thomas.

Yn dilyn damwain seiclo, mi fydd Mr Barrett hefyd, yn absennol o'r gwaith. Mae'r gwasanaeth cerdd yn gobeithio'n fawr i gael athro/athrawes arall i gyflenwi yn ei le. Gofynnaf yn garedig am eich cydweithrediad ar yr adeg hon.

Ffarwelio

Ar ddiwedd yr hanner tymor hwn mi fyddwn yn ffarwelio a Mrs Alison Sullivan. Dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd ac yn diolch iddi am ei holl waith caled yn ystod ei chyfnod yn Ysgol Hafan y Môr a chyn hynny yn Ysgol Fabanod Dinbych y Pysgod. Byddaf yn eich hysbysu o'r aelod o staff newydd yn lle Mrs Sullivan yn dilyn y broses penodi.

Apêl Bocsys Nadolig

Eleni byddwn yn cefnogi Apêl Bocsys Nadolig y Rotari, Dinbych y Pysgod. Mae gennym 80 bocsys yn yr ysgol er mwyn llenwi ar gyfer plant llai ffodus fel eu bod yn derbyn anrhegion ar fore Nadolig. Gofynnaf yn garedig i chi gefnogi'r apêl a phrynu bocsys am £1, ei lenwi, rhoi £2 ar y bocsys a'i ddychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Gwener, Tachwedd 9fed 2018.

Siarter Iaith Gymraeg

Fel rhan o'n siarter iaith Gymraeg rydym yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth Gymreig a dysgu rhai caneuon Cymraeg. Yn ystod gwasanaeth ddydd Mercher, pleidleisiodd y plant ar gyfer Yws Gwynedd. Mae Yws Gwynedd yn fand Roc Cymreig o Ogledd Cymru a enwir ar ôl ei brif ganwr, Ywain Gwynedd. Gellir canfod y caneuon ar 'You Tube' trwy ddilyn y dolenni isod * Cofiwch nad ydym yn gyfrifol am gynnwys fideos.

<https://www.youtube.com/watch?v=PADjnW0cndk>

<https://www.youtube.com/watch?v=OZkGqUpR3lo>

Byddwn hefyd yn cyflwyno idiom o'r wythnos:

Idiom yr wythnos hon yw 'Siarad fel pwll y môr'

Defnyddio technoleg trwy gyfrwng y Gymraeg

Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae taflenni apps defnyddiol wedi'u cynnwys ar waelod y bwletin wythnosol.

Cystadleuaeth Guto Ffowc

Mae Clwb Rotari Dinbych-y-Pysgod wedi gwahodd pob ysgol yn ardal Dinbych-y-Pysgod i gymryd rhan yn ei Gystadleuaeth Gwneud Guto Ffowc flynyddol, sy'n gysylltiedig ag arddangosfa tân gwyllt eleni ar ddydd Gwener Tachwedd 2il 2018, yn Nhŷ Clwb Rygbi Tenby United (TURFC) Ground, Heywood Lane Dinbych-y-Pysgod.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, sicrhewch fod eich Guto Ffowc yn yr ysgol erbyn dydd Llun, Hydref 22ain. Byddwn yn cynnal cystadleuaeth fewnol cyn i'r Guto Ffowc gael ei gasglu gan aelod o'r clwb Rotari, gan mai dim ond un dyn y gellir ei gyflwyno o bob ysgol.

Bydd y beirniadu ar gyfer y gystadleuaeth Rotari yn cael ei gynnal yn TURFC ar noson Dachwedd 2il a dyfernir gwobrau i'r dynion buddugol i'r ysgolion fel a ganlyn:

Gwobr 1af £75

Ail Wobr £50

3ydd Wobr £25

Bydd y Guto Ffowc buddugol hefyd yn meddu ar ben y goelcerth, ynghyd â'r ddau enillydd gwobr - yn ôl eu cymeradwyaeth. Pob lwc!

Diolch am eich cyd-weithrediad a'ch cefnogaeth

Y Griffiths

Mrs Griffiths
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 05.10.18		Week commencing: 05.10.18	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
08.10.18 <u>Dydd</u> <u>Llun</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Hughes a Mr Thomas</u> Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	08.10.18 <u>Monday</u>	<u>PE lessons for Mrs Hughes & Mr Thomas' class</u> All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
9.10.18 - 11.10.18	<u>Wythnos Teithiau Dysgu Llywodraethwyr yr Ysgol.</u> Bydd llywodraethwyr yr ysgol yn ymweld â'r ysgol ac yn edrych ar wahanol agweddau o fywyd yr ysgol gan gynnwys ymweliadau ystafell ddosbarth, craffu ar lyfrau a siarad â disgyblion a staff. *Gallwch weld pwy yw pwy o ran y llywodraethwyr ar wefan yr ysgol: http://ysgolhafanymor.cymru/cartref/gwybodaeth/llywodraethwyr/	9.10.18 - 11.10.18	<u>School Governor Learning Walk week.</u> School governors will visit the school and look at various aspects of school life including classroom visits, book scrutiny and talking to pupils & staff. *You can see who's who on the school's website by following the link below: http://ysgolhafanymor.cymru/home/information/governors/
10.10.18 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Clwb Cwtsh (10-11.15)</u> - cwrs blasu Cymraeg sy'n llawn hwyl a sbri i rieni a phlant cyn oed ysgol. Pob bore dydd Mercher am 8 wythnos.	10.10.18 <u>Wednesday</u>	<u>Clwb Cwtsh (10-11.15)</u> - is a fun-filled eight-week taster programme every Wednesday morning, focusing on speaking Welsh with pre-school aged children.
10.10.18 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Mercher Mwdlyd</u> -Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth <u>Sêr y Môr, Cregyn neu Ynys Bŷr</u>	10.10.18 <u>Wednesday</u>	<u>Muddy Wednesday</u> - Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in <u>Sêr y Môr, Cregyn or Ynys Bŷr class</u>
10.10.18 <u>Dydd</u> <u>Mercher</u>	<u>Clybiau ar ôl ysgol (3.05 - 4.15yp)</u> Clwb Chwaraeon (Sports) - Bl. 2 Clwb Crefft - Bl. 3 + 4	10.10.18 <u>Wednesday</u>	<u>After school clubs (3.05 - 4.15yp)</u> Clwb Chwaraeon (Sports) - Yr. 2 Clwb Crefft (Craft) - Yr. 3 & 4
11.10.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Diwrnod T Llew Jones + Diwrnod Shwmae!</u> - Fel rhan o'n Siarter Iaith byddwn yn dathlu ac hyrwyddo awduron a llyfrau Cymraeg. <u>Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion gwisgo dillad Coch Gwyn a Gwyrdd a chyfrannu £1.</u>	11.10.18 <u>Thursday</u>	<u>T Llew Jones Day & Diwrnod Shwmae!</u> - As part of our Welsh Language charter we will be celebrating and promoting Welsh authors & books. <u>We kindly ask pupils to wear Red White and Green clothes to school and contribute £1.</u>
11.10.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Bore Iau Mwdlyd</u> -Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth <u>Pysgod Chwim (Mrs Griffiths)</u>	11.10.18 <u>Thursday</u>	<u>Muddy Thursday morning</u> - Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in <u>Pysgod Chwim class (Mrs Griffiths)</u>
11.10.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs King a Mrs Walters (Bl. 1 a 2)</u> Rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	11.10.18 <u>Thursday</u>	<u>PE lessons for Mrs King & Mrs Walters' class (Year 1 & 2)</u> All pupils must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
11.10.18 <u>Dydd</u> <u>Iau</u>	<u>Clwb Coginio (Cooking Club)</u> - Bl. 5 a 6 gorffen am 4.30yp	11.10.18 <u>Thursday</u>	<u>Clwb Coginio (Cooking Club)</u> - Yrs. 5 & 6 finishes at 4.30pm

12.10.18 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) a dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim)</u> Rhaid i bob plentyn yn Sêr y Môr ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.	12.10.18 <u>Friday</u>	<u>PE lessons for Mrs Phillips' class (Sêr y Môr) & Pysgod Chwim, Mrs Griffiths' class</u> All pupils in Sêr y Môr must bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
12.10.18 <u>Dydd</u> <u>Gwener</u>	<u>Gwersi nofio</u> i ddosbarth Cychod (Mr Thomas)	12.10.18 <u>Friday</u>	<u>Swimming lessons</u> for Cychod class (Mr Thomas)

Gwybodaeth - Information

Presenoldeb wythnos yn gorffen: 05.10.18 - 97.47% (Targed yr Ysgol: 95.1%)

Attendance week ending: 05.10.18 - 97.47% (School's attendance target: 95.1%)

Reg		
Reg	Authorised Absence	Attended
Cregyn	1.9	98.1
Cychod	1.48	98.52
Pysgod Chwim	7.19	92.81
Ser Y Mor	4.62	95.38
Yr Harbwr	1.43	98.57
Ynys Byr		100

Newyddion da - rydym ni'n uwch na tharged yr ysgol yr wythnos hon ac rydym yn cael eu hystyried yn wyrdd eto! Diolch.

Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)

Hanner tymor	29.10.18 - 2.11.2018
Gwyliau Nadolig	24.12.18 - 4.01.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	07.01.2019 + 08.01.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	22.07.2019

* Nodwch os gwelwch yn dda - mae 1 diwrnod HMS pellach, dyddiad i'w gadarnhau .

GWERSI ADDYSG GORFFOROL

Noder os gwelwch yn dda, rhaid i bob plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.

Dosbarth Mr Thomas (Cychod) + Mrs Hughes' (Harbwr) Class -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Mrs King (Ynys Bŷr) + Mrs Walters (Cregyn) Class -	Dydd Iau / Thursday
Dosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) Class -	Dydd Gwener / Friday
*Dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim) -	Dydd Gwener / Friday

*Nid oes angen iddynt fod yn cit ymarfer corff ffurfiol / These pupils do not need to wear formal PE kit

INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:-

The Council's website at:- www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: <https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/>

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-

www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil

www.twitter.com/Pembrokeshire

Dyddiadau o flaen llaw		Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau		Events and News Bulletin	
<u>Dyddiad</u>	<u>Digwyddiad</u>	<u>Date</u>	<u>Event</u>
22.10.18	Wythnos Eco ac Iach - manylion i'w dilyn	22.10.18	Eco & Healthy living Week - details to follow
22.10.18 - 25.10.18	Nosweithu rhieni - manylion i'w dilyn <i>*Ni fydd clybiau allgyrsiol yn ystod yr wythnos hon ond mi fydd Clwb Hwyl fel yr arfer.</i>	22.10.18 - 25.10.18	Parent & Teacher meetings - details to follow <i>*There will be no extra-curricular clubs during this week however Clwb Hwyl will run as per usual.</i>
29.10.18 - 2.11.18	GWYLIAU HANNER TYMOR	29.10.18 - 2.11.18	HALF TERM BREAK

Apiau a Gwefannau Defnyddiol / Useful Apps and Websites
 Apiau addas i'r Cyfnod Sylfaen / Suitable apps for the Foundation Phase.

<p>Tric a Chlic</p>	<p>Llyfrau Magi Ann</p>	<p>Cyfri gyda Cyw</p>	<p>Cyw a'r Wyddor</p>	<p>Daisy the Dino</p>
<p>Alun yr Arth</p>	<p>Beebot</p>	<p>Celf gyda Sam</p>	<p>Puppet Pals</p>	<p>Apiau arall Cyw</p>
<p>Llythrennau (Big Clic)</p>	<p>Rhifedd (Big Clic)</p>	<p>Dilynwch ni ar Drydar Follow us on Twitter</p> <p>@hafanymortenby </p>		

Apiau addas i Gyfnod Allweddol 2 / Suitable Apps for Key Stage 2

<p>Pyramid</p>	<p>Ap Treiglo</p>	<p>Llawysgrifen (Big Clic)</p>	<p>Ap Gwilym</p>	<p>Math Duel</p>
<p>Stwnsh</p>	<p>Guto Nyth Bran</p>	<p>Brwydr Croeseiriau</p>	<p>Prezi</p>	<p>Nessy</p>
<p>Garage Band</p>	<p>iMovie</p>	<p>Hwb</p>	<p>Purple Mash</p>	<p>S4C & Clic</p>